# Rhoi gwybod am broblem gyda sgoriau hylendid bwyd

## Rhoi gwybod am broblem diogelwch bwyd neu hylendid bwyd

Gallwch roi gwybod am broblem bwyd mewn bwyty, siop fwyd neu gyda bwyd wedi'i archebu ar-lein i'r awdurdod lleol lle mae'r busnes wedi'i leoli.

Defnyddiwch y gwasanaeth hwn i ddod o hyd i fanylion cyswllt y tîm diogelwch bwyd. Gallwch anfon e-bost at y tîm neu ddefnyddio gwefan yr awdurdod lleol i roi gwybod am eich problem.

Bydd tîm diogelwch bwyd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i'r mater ac yn cymryd unrhyw gamau priodol.

## Rhoi gwybod am fusnes bwyd heb ei gofrestru

Mae'n rhaid i bob busnes bwyd gofrestru gyda'i awdurdod lleol. Os ydych o'r farn nad yw busnes bwyd wedi'i gofrestru, gallwch roi gwybod i dîm diogelwch bwyd yr awdurdod lleol lle mae'r busnes wedi'i leoli.

## Rhoi gwybod am broblem gyda sgôr hylendid bwyd

Darllenwch y canllawiau ar roi gwybod am broblem gyda sgôr hylendid bwyd, gan gynnwys:

- os na allwch ddod o hyd i sgôr hylendid busnes bwyd ar y wefan
- os yw'r sgôr ar-lein yn wahanol i sticer sgôr hylendid bwyd
- os yw busnes yn arddangos sgôr uwch yn fwriadol

## Rhoi gwybod am broblem gyda sgôr hylendid bwyd eich busnes

Darllenwch ein canllawiau ar roi gwybod am broblem gyda sgôr hylendid bwyd eich busnes os ydych:

- yn methu dod o hyd i'ch sgôr ar y wefan
- am apelio yn erbyn eich sgôr
- am gael sgôr hylendid bwyd ar gyfer eich busnes

Neu os yw:

- manylion eich cyfeiriad yn anghywir
- eich sgôr yn wahanol i'r sgôr a roddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf

# Rhoi gwybod am broblem gyda'r gwasanaeth sgoriau hylendid bwyd

I roi gwybod am broblem neu os oes gennych gwestiynau am ein gwasanaeth chwilio am sgoriau hylendid bwyd, anfonwch e-bost i hygieneratings@food.gov.uk.